



# Beth Mae Pobl Crughywel yn Ei Eisiau ar Gyfer Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ar 4 Rhagfyr 2024, cynhaliodd Llais Cymru gyfarfod yn Crughywel i glywed barn pobl am wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Daeth llawer o bobl i rannu eu straeon a'u syniadau, a dyma beth ddywedon nhw wrthym ni.



Eich llais chi mewn | Your voice in health  
iechyd a gofal | and social care

## Gwasanaethau Iechyd: Gwella Gofal

Dywedodd pobl ei bod yn anodd cael y gofal iechyd sydd ei angen arnynt. Sonion nhw am:

**Gweld Meddyg Teulu:** Mae'n rhy anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu. Mae pobl eisiau mwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb ac i weld yr un meddyg bob tro.

**Gofal Brys:** Mae ambiwlansys yn cymryd gormod o amser i gyrraedd, ac mae ysbytai'n brysur iawn. Mae hyn yn poeni pobl sy'n angen cymorth yn gyflym.

**Problemau Teithio:** Mae ysbytai'n bell i ffwrdd, ac mae'n costio gormod i fynd yno. Mae pobl eisiau ysbytai agosach a chlodiant gwell.

**Cyfathrebu Gwell:** Mae cleifion yn teimlo'n ddrislyd oherwydd nad yw gwasanaethau iechyd yn egluro pethau'n dda. Maen nhw hefyd eisiau systemau i rannu cofnodion meddygol rhwng Cymru a Lloegr.



## Gofal Cymdeithasol: Cefnogi Pobl i Aros yn Annibynnol

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd, ac mae hyn yn achosi problemau. Dywedodd pobl:

**Canolfannau Dydd:** Mae lleoedd lle gall pobl hŷn gyfarfod a chymdeithasu wedi cau. Mae hyn wedi gwneud i bobl deimlo'n unig ac wedi blino gofalwyr. Maen nhw eisiau ailagor y canolfannau hyn.

**Helpu Gofalwyr:** Nid yw gofalwyr yn cael eu talu'n ddigon, ac mae eu hymweliadau'n rhy fyr. Mae pobl yn credu bod angen talu gofalwyr yn well a darparu mwy o hyfforddiant iddynt.

**Byw Gartref:** Mae addasiadau cartref, fel rheiliau llaw, yn dda. Mae angen mwy o help fel hyn fel y gall pobl aros yn eu cartrefi eu hunain.

**Costau Clir:** Mae pobl yn ddryslyd ynghylch faint mae cartrefi gofal yn ei godi. Maen nhw eisiau gwybodaeth glir fel y gall teuluoedd gynllunio.



## Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Cydweithio

Mae pobl yn meddwl y dylai gofal iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n agosach. Rhannwyd y syniadau hyn:

**Uno Gwasanaethau:** Nid yw gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn aml. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen i wasanaethau fod yn fwy cysylltiedig.

**Defnyddio Technoleg:** Mae rhai pobl yn hoffi gwasanaethau iechyd ar-lein, ond mae eraill yn eu cael yn anodd eu defnyddio. Dylai pawb allu defnyddio technoleg newydd, gyda chefnogaeth os oes angen.

**Atal problemau:** Mae pobl eisiau i wasanaethau ganolbwyntio ar gadw pobl yn iach. Mae hyn yn cynnwys mwy o gymorth iechyd meddwl, archwiliadau iechyd, ac addysg.



## Beth Nesaf?

Mae pobl yn Crughywel eisiau gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol sy'n haws eu defnyddio, yn agosach at adref, ac yn fwy ffocysedig ar helpu pawb i aros yn iach ac yn annibynnol.

Drwy weithio gyda'n gilydd a gwrando ar bobl, gallwn greu gwasanaethau sy'n gweithio'n well i bawb.

